# Cynllunio gyda'n gilydd – dull partneriaeth



Trefi a Dinasoedd Natur

# Cyflwyniad


Gweithredwch ddull partneriaeth yn eich gweledigaeth strategol, i fanteisio ar arfer da a datgloi buddion natur i bawb.



Mae'r canllaw hwn ar gyfer timau sy'n awyddus i ddatblygu eu dull presennol o reoli cymuned, gan nodi fframwaith tair rhan i greu gweledigaeth gyffredin.

Darllenwch ymlaen ar gyfer dulliau cynllunio sy'n dod â thimau a chymunedau ynghyd mewn ffordd fwy cydweithredol a chynhwysol i lywio dyfodol gwell ar gyfer eu parciau a mannau gwyrdd lleol.

Dan bob cam mae technegau cyfranogol, astudiaethau achos ac awgrymiadau sy'n helpu i roi amrywiaeth a chydraddoldeb wrth wraidd eich cynlluniau.



# Cam 1: dechrau sgwrs

Dylai dull partneriaeth alluogi cymaint o bobl â phosibl i gyfrannu at y weledigaeth strategol.

Ar y dudalen nesaf, mae dulliau sydd eisoes wedi ennill eu plwyf i ddychmygu gyda'n gilydd ar raddfa dinas neu dref. Maent yn tynnu ar y ffyrdd bach a mawr mae byd natur yn cefnogi bywydau iachach a hapusach yn eich cymune.

Defnyddiwch y ddealltwriaeth hon i wneud y weledigaeth ar gyfer parciau a mannau gwyrdd yn wirioneddol ystyrlon i'ch ardal leol.

Gall y cam hwn gymryd hyd at chwe mis, a gorffen gyda datganiad gweledigaeth cyflawn.



**Awgrymiadau ardderchog:**

1. Uniaethwch â theimladau pobl drwy ofyn sut allent deimlo'n fwy cyfforddus yn yr awyr agored neu dreulio mwy o amser ym myd natur.
2. Pob tro rydych yn cysylltu â'ch cynulleidfa, dangoswch eich bod yn gwrando. A allwch chi ddangos sut bydd eich gweledigaeth yn datblygu ar ymgynghoriadau blaenorol?
3. Defnyddiwch ddata lleol i ganolbwyntio eich dulliau cynllunio. Mae'r adnodd demograffig ONS yn fan cychwyn gwych.
4. Cyflwynwch syniadau cynllunio yn raddol i'ch dulliau cyfathrebu rheolaidd, megis cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol a gwefan.

# Cam 1: dechrau sgwrs *parhad*

## Ffyrdd o ddychmygu gyda'n gilydd:

- **Cardiau Post o'r Dyfodol:** ymlaen â ni i'r flwyddyn 2050. Sut mae'r 'diwrnod delfrydol' yn edrych i'ch cymuned leol a'ch rhanddeiliaid?
- **Tro a sgwrs:** gwahoddwch aelodau o'r gymuned i ddod am dro drwy'r ardal leol. Mae'n ffordd wych o ganfod newidiadau bychain a all arwain at bethau mwy. Dysgwch sut gwnaeth y prosiect Cymdogaethau Byd Natur fynd o'i chwmpas hi yma.
- **Rhaglennu blynyddol:** cynhaliwch ymweliadau a digwyddiadau sy'n dathlu adegau tymhorol mewn parciau a mannau gwyrdd lleol bob blwyddyn. Mae'n ffordd o ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gyson gyda'r gymuned leol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwyliau concyrs, llwybrau mes, a Gwledd y Gwanwyn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- **Ewch yn bellach nag ymgynghoriad:** rewch ati i ailwampio ffordd arferol eich awdurdod lleol o gynnal ymgynghoriad drwy ychwanegu rhywbeth bach gwahanol. Cymerwch gip ar hwb ymgysylltu cymunedol Man Gwyrdd Cyngor Bwrdeistref Camden am ysbrydoliaeth.

## Cynllunio cyfranogol ar waith:

- **Ymgynghoriad Maptionnaire yng Nghaeredin:** Casglodd Gyngor Dinas Caeredin syniadau ac adborth i lunio dyfodol eu parciau a mannau gwyrdd. Defnyddion nhw arolygon yn seiliedig ar fapiau ar blatfform ymgysylltu dinasyddion Maptionnaire.
- **Straeon Daear Birmingham**: Bu Cyngor Dinas Birmingham yn gwrando ar straeon 500 o bobl am natur, er mwyn llywio eu Cynllun Dinas Natur 25 mlynedd. Aethant ati i archwilio cysylltiadau plentyndod pobl â natur, a gofyn beth fyddent yn ei ddymuno ar gyfer eu plant. Chwilion nhw am leisiau ymylol drwy allgymorth cymunedol.





# Cam 2: llenwi'r bwlch

Cysylltwch â rhwydweithiau newydd yn eich ardal fel rhan o'r broses cynllunio strategol.

Defnyddiwch ddata i edrych ar ddemograffig eich lle a mapiwch yr holl rhanddeiliaid o amgylch man gwyrdd sy'n bodoli. Gallai hyn gynnwys adeiladwyr cymunedol, a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar iechyd a chwaraeon.

Y bwriad yw eich helpu i ganfod bylchau o ran pwy sy'n cymryd rhan ac alinio nodau strategol gwahanol.

Dylai mannau gwyrdd a pharciau lleol gael eu gwerthfawrogi gan bawb sy'n eu defnyddio. Ar y dudalen nesaf, mae ffyrdd i gael gweledigaeth ar y cyd â rhwydweithiau a phartneriaid cymunedol i wireddu hyn.



## Awgrymiadau ardderchog:

1. Defnyddiwch ddata i ddangos y buddion o gael mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd i'ch rhanddeiliaid.
2. Gall mapiau cyfrifiad ONS helpu i ddangos lle mae'r angen mwyaf.
3. Mae'r arolwg Pobl a Natur yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ynghylch agweddau pobl tuag at yr amgylchedd naturiol a'i effaith ar lesiant.

# Cam 2: llenwi’r bwlch *parhad*

## Ffyrdd o ddychmygu gyda’n gilydd:

- **Grwpiau ffocws:** siaradwch â grwpiau bychain am bwnc, cynnyrch, neu gysyniad penodol. Gall hyn eich helpu i ddeall cymhellion y rhai nad ydynt yn defnyddio eich gwasanaeth ar hyn o bryd.
- **Cynhaliwch gyfweliadau gyda Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol (VCSE):** targedwch eich gweithdai ‘cynllunio gyda’n gilydd’ at VCSE a all eich helpu i ddeall y cyfyngiadau presennol sy’n ymwneud â mynediad at fannau gwyrdd. Rhowch gynnig ar y dull ‘Ymholiad Gwerthfawrogol’ - ffordd o feithrin newid yn seiliedig ar gryfderau tîm neu sefydliad sy’n bodoli.
- **Mapiwch fewnweled rhanddeiliaid:** crëwch weledigaeth ar gyfer eich parciau a mannau gwyrdd drwy fapio canlyniadau dymunol eich rhanddeiliaid ar ddiagram Venn a’i drosi’n ddamcaniaeth o newid.
- **Ei gweld mewn gwirionedd:** Mae Planning for Real yn helpu cymunedau i lywio cymdogaeth eu dyfodol drwy weld ei phosibiliadau mewn 3D. Mae cyfranogwyr yn gwneud sylwadau ar gryfderau a gwendidau’r lleoliad ac yn gwneud awgrymiadau ynghylch sut yr hoffent weld eu cymunedau’n datblygu.

## Cynllunio cyfranogol ar waith:

- **Pecyn Cymorth Newidwyr Lleoedd Ifanc Caeredin:** Gweithiodd Cyngor Dinas Caeredin gyda Greenspace Scotland i ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau yn eu cymuned leol.
- **Panel Hinsawdd Dinasyddion Islington:** Gweithiodd Cyngor Bwrdeistref Islington gyda phanel o 35 o drigolion i ddychmygu sut allai Islington sy’n gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd edrych, a sut mae modd cyflawni hynny. Roedd tîm o arbenigwyr wrth law drwy gydol y broses chwe mis, ond roedd y cynlluniau a’r egwyddorion dan arweiniad y gymuned.
- **Cynghrair Dinas Natur Birmingham:** Lansiodd Cyngor Dinas Birmingham Gynghrair Dinas Natur i greu gweledigaeth gyffredin ar gyfer seilwaith gwyrdd ar draws y ddinas. Roedd yr holl aelodau eisoes yn gweithio yn y sector, ond fe luniodd y gynghrair weledigaeth gyffredin, a ffyrdd o weithio. Mae’r Gynghrair bellach yn helpu i gyflawni nodau’r Cynllun Dinas Natur 25 mlynedd
- **Lleisiau Ifanc dros Natur:** Daeth y RSPB, WWF a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol â 300 o bobl ifanc rhwng 13 a 25 oed ynghyd i adrodd eu straeon am gefnogi natur. Roedd yna weithdai sgiliau ar adrodd straeon, creu ffilmiau ac eiriolaeth. Cafodd y ffilm a gynhyrchwyd am eu gweledigaeth ei sgrinio mewn sinemâu.



# Cam 3: y lansiad mawr


Gall digwyddiad neu lansiad cyhoeddus godi ymwybyddiaeth ac annog mwy o bobl i helpu i wireddu eich gweledigaeth. Mae rhai ffyrdd o fynd o'i chwmpas hi i'w gweld ar y dudalen nesaf.

Dylai ymgysylltu â'r weledigaeth fod yn hawdd er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol i amrywiaeth eang o bobl. Rhowch gynnig ar bleidleisiau ar-lein a mandad cyhoeddus drwy grwpiau sefydledig ac aelodau etholedig.

Byddwch yn gwbl glir ynghylch diben cyfraniadau pobl er mwyn helpu i reoli disgwyliadau. Os ydych yn gofyn eu barn, rydych yn 'casglu gwybodaeth'. Os ydych yn gadael i bobl gyflwyno eu syniadau ar blatfform cyfartal, yna rydych yn 'penderfynu gyda'ch gilydd'.

## Awgrymiadau ardderchog:

1. Rhowch eich gweledigaeth ar-lein i'w gwneud yn fwy amlwg.
2. Rhowch farn sawl llais yn y naratif.
3. Ystyriwch leoliadau nad ydynt yn draddodiadol ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb e.e. lleoliadau difyr fel llawr sglefrio, neu yurt hyd yn oed!



# Cam 3: y lansiad mawr *parhad*

## Ffyrdd o ddychmygu gyda'n gilydd:

- **Lansiwch fideos:** cymerwch gip ar fideo YouTube Dinas Natur Cyngor Dinas Birmingham.
- **Ardaloedd gweithio ar y cyd:** mae platfformau ar-lein fel Mural neu Padlet yn helpu i hwyluso gweithdai damcaniaeth newid ar-lein. Dyma ragor o awgrymiadau ar gynnal sesiynau ar-lein.
- **Cyllidebu cyfranogol:** galluogi pobl i wneud penderfyniadau uniongyrchol ynglŷn â sut i wario cyllidebau. Mae hyn yn gweithio ar gyfer prosiectau gwyrddu yn ogystal â materion dydd i ddydd gyda blaenoriaethau sy'n cystadlu'n erbyn ei gilydd.
- **Ail-ddychmygu cyhoeddus:** ccreu modelau sy'n dangos y weledigaeth ar gyfer eich mannau gwyrdd neu barciau. Gallech greu lluniad CAD neu hyd yn oed eu hadeiladu 'go iawn' gyda Lego neu ddodrefn IKEA.


## Cynllunio cyfranogol ar waith:

- **Cynllun Natur y Bobl:** Casglodd yr WWF, y RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol farn dorfol gan 30,000 o bobl am y ffyrdd gorau o greu newid.
- **Rhaglen Groundwork Northern Network:** Mae Groundwork yn cefnogi grwpiau cymunedol i gyd-greu Hybiau Cymunedol Gwyrdd, meithrin arweinyddiaeth gymunedol ar lefel gymdogaeth a chreu rhwydwaith o gefnogaeth rhwng cymheiriaid.
- **Pecyn Cymorth Safonau Mannau Agored:** Nododd Prosiect Parciau'r Dyfodol Swydd Gaergrawnt a Peterborough, mewn partneriaeth â Chyngor Dosbarth Fenland, gamau argymelledig i awdurdodau lleol ddatblygu safonau mannau agored. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys yr hyn a ddysgwyd ynghylch ymgysylltiad cyhoeddus.




MMVII

# Atodiad



## Awgrymiadau ardderchog cyn dechrau arni

**Diffiniwch eich datganiad problem**
Mae gweledigaeth strategol wych yn deillio o ddatganiad problem a ddiffiniwyd yn dda. Dechreuwch drwy nodi'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer eich mannau gwyrdd a gosod y trywydd i'w goresgyn.

Bydd y trywydd hwn, y cyfeirir ato'n aml fel 'Seren y Gogledd' yn darparu'r sylfaeni ar gyfer eich gweledigaeth strategol.

Ewch i BetterUp i gael mwy o gymorth gydag ysgrifennu'ch datganiad problem.

**Diffiniwch eich cynulleidfa**
O aer glân i gân yr adar, coetiroedd i goed - mewn ffyrdd dirifedi, mae byd natur yn ein trefi a'n dinasoedd yn sail i fywydau hapusach ac iachach.

Er mwyn helpu i wireddu'r buddion hyn, gofynnwch i'ch hun ym mhob cam o'r fframwaith hwn:

- Gyda phwy yr hoffech chi siarad?
- Beth hoffech chi ei drafod gyda nhw?
- Beth yw'r ffordd orau o gael y neges iddyn nhw?

# Atodiad

## Pwyso a mesur ymdrech yn erbyn effaith

Mae sawl ffordd o ddenu sylw rhanddeiliaid, rhwydweithiau cymunedol a'r cyhoedd ehangach gyda'ch gweledigaeth strategol.

Wrth gynllunio'r technegau cywir ar gyfer eich ardal, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi bwyso a mesur yr ymdrech y byddant ei angen yn erbyn yr effaith y gallant ei chael.

Am ragor o syniadau ac ysbrydoliaeth ynghylch dulliau cyfranogol, ewch i involve.



# Atodiad

## Ysgol ymgysylltiad

Mae ysgol ymgysylltiad yn adnodd i gadarnhau diben ymgysylltiad gyda grŵp o bobl - o ddatgan, i ddatganoli gwneud penderfyniadau (gyda llawer o gamau rhyngddynt).

Efallai y byddai'n ddefnyddiol gosod y dulliau a ddewiswch ar yr ysgol, i reoli disgwyliadau eich rhanddeiliaid a'r gynulleidfa darged.

Lluniwyd yr enghraifft hon gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cymerwch gip ar y Llawlyfr Dinasyddion am ragor o wybodaeth ynghylch defnyddio ysgol i fapio eich dull o gynllunio'n gyfranogol.

1. Rhoi gwybodaeth
2. Casglu gwybodaeth
3. Annog gweithredu
4. Ymgynghori i gael eich dylanwadu
5. Penderfynu ar y cyd
6. Gweithredu ar y cyd
7. Cefnogi eraill

Os oes angen fformat arall arnoch, neu os oes gennych gwestiynau i'r tîm tu ôl i'r canllaw hwn, anfonwch e-bost atom drwy
**info@naturetownsandcities.org.uk**

Heritage Fund

National Trust

NATURAL ENGLAND

*Cydnabyddiaeth llun: ©National Trust Images/James Dobson, Paul Harris, Arnhel De Serra, John Millar, Megan Taylor, Trevor Ray Hart*